**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cynhelir y cyfarfod o bell drwy *Microsoft Teams***

**Dydd Gwener, 11 Mehefin 2021 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | N J Davies | P Downing |
| P Lloyd | H M Morris | C L Philpott |
| B J Rowlands | L G Thomas | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Nick Huffer | Cyfreithiwr Cyflogaeth (Arsylwi) |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice ac S J Gallagher

---

## 4 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2021 a 20 Mai 2021 yn gofnod cywir.

## 6 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 7 Y Diweddaraf am Gamau Gweithredu Di-oed/Canlyniadau Apeliadau

**Nodwyd.**

## 8 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cymeradwyo trwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a hurio preifat – CEB

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â CEB.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd CEB, yng nghwmni PB, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

**Penderfynwyd:**

1. **Gwrthod** cais CEB am drwydded gyfyngedig i yrru cerbydau hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Nid oedd CEB wedi sicrhau'r aelodau ei bod yn berson diogel ac addas i gadw'r drwydded dan adrannau 4.26, 4.27, 4.39 a 4.42 a 4.44 o'r arweiniad ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y busnes cerbydau hacni a hurio preifat. Hefyd, gwnaeth yr aelodau ystyried 3.29 ac nid oeddent yn teimlo eu bod wedi clywed unrhyw amgylchiadau eithriadol na rhesymau y gellir eu cyfiawnhau i wyro oddi wrth y canllawiau.

## 9 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010- Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - MDHC.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â MDHC.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd MDHC yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1. **Cymeradwyo** cais MDHC am eithriad rhag cludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat **am gyfnod amhendant.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am

**Cadeirydd**